


Bob mis byddwn yn canolbwyntio ar awdur ysbrydoledig sy'n byw yng Nghymru neu'n ysgrifennu am Gymru! Cewch gyflwyniad i'w lyfr diweddaraf, beth sy'n ei ysbrydoli i ysgrifennu, ac unrhyw gyngor sydd ganddynt i ysgrifenywyr ifanc!

Dod i adnabod

Geraint V. Jones



Mae'r awdur o Lan Ffestiniog, Geraint V. Jones, wedi cyhoeddi pedair ar ddeg o nofelau Cymraeg ar gyfer oedolion, yn ogystal ag un Saesneg. Enillodd Wobr Goffa Daniel Owen dair gwaith gyda *Yn y Gwaed* (1990), *Semtecs* (1998) a *Cur y Nos* (2000).



Crynodeb:

Corff gwraig ifanc yn Afon Ddyfrdwy a thrasiedi arall ger Trwyn Cilan yn Llŷn. Nofel goll... dyddiadur cudd... dryswch yn achau'r teulu.

Mae rhyw ddirgelwch neu gyfrinach yng ngorffennol pob un ohonom, ond gan neb yn fwy na'r awdures fyd-enwog Veronique a theulu ifanc Sisial y Traeth yn Abersoch. Ym marn y gohebydd Huw Peris mae yma fwy nag un dirgelwch i'w datrys, ond a oes peryg i'w ymyrraeth gostio'n ddrud iddo yntau hefyd?

Ymha ffordd mae *Niwl Ddoe* yn debyg a gwahanol i lyfrau eraill rydych chi wedi eu hysgrifennu?

O ran thema, mae *Niwl Ddoe* yn eithaf tebyg i *Elena* (2019) mae'n siŵr, gan mai dirgelion teulu sydd i'w cael yn honno'n ogystal. Ond dirgelion llai eithafol, serch hynny, na'r hyn a gaed yn y nofel fer *Yn y Gwaed* (1990) neu *Cur y Nos* (2000).

Mae rhai o'm nofelau eraill yn perthyn i genre pur wahanol e.e. ias a chyffro *Semtecs* (1998), *Asasin* (1999), *Omega* (2000), *Zen* (2004) ... neu'r ymgais at hiwmor a ffars yn *Sí Béi* (2010).

Pa lyfrau ysbrydolodd chi fel darllenwr ifanc?

Llyfr Mawr y Plant oedd ffefryn yr oes (h.y. canol yr 1940au i mi!). Roedd hanesion Sion Blewyn Coch ac eraill yn tanio'r dychymyg ifanc. Byd Enid Blyton oedd hi wedyn yn yr ardegau cynnar - helyntion y *Famous Five* a'r *Secret Seven* i ni'r hogia. A'r fath edrych ymlaen o hyd at y nesaf i ymddangos o'r wasg. Ar y pryd, doedd fawr o ddim yn y Gymraeg a allai gystadlu efo rheini, gwaetha'r modd. Yna, cyfnod o ymgolli'n llwyr yn storïau ditectif Agatha Christie a rhai John Ellis Williams (hwnnw'n brifathro ar un o ysgolion cynradd Stiniog ar y pryd, ac yn wyneb cyfarwydd i mi).

Pa brofiadau o llyfrgelloedd sydd wedi dylanwadu arnoch drwy eich bywyd?

Fy nghof cyntaf ydi mynd yng nghwmni fy nhad i'r llyfrgell ym Mlaenau Ffestiniog i ddewis llyfr. Rhyw ddeg oed oeddwn i ar y pryd, dwi'n tybio, a Nedw Tegla Davies oedd yn cael ei argymhell gan y llyfrgellydd. (Cyfyng iawn oedd y dewis i blant a phobl ifanc yn niwedd yr 1940au) Sut bynnag, tipyn o strygl fu'r darllen, rhaid cyfadde, ond fe ddois i ben â hi rywsut neu'i gilydd a dod i sylweddoli bod angen dyfalbarhad weithiau i allu gwerthfawrogi llyfr. Peth arall a adawodd argraff arnaf bryd hynny oedd arogl hen a mwll y lle, a'r ffaith bod y llyfrau i gyd mor ddi-liw - cloriau duon, cloriau brown, cloriau brown goch, cloriau gwyrdd tywyll. Y fath newid a fu dros y blynyddoedd! Erbyn heddiw, cloriau a siacedi llwch lliwgar a deniadol, a'r print a'r cysodi yn gymaint brafiach i'r llygad!

Y Lolfa

www.ylolfa.com



Llyfrgelloedd Cymru
Cael mwy o'ch llyfrgell

... mwy C&A
ar wefan

llyfrgelloedd.cymru